# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**7/10/25**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Alwyn Roberts (cadeirydd), Llinos Edwards, Lis Puw, Euros Roberts, Beryl Griffiths, Rhodri Jones, Dewi Jones a Huw Roberts.
**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3235** **Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Alwyn M Roberts ac fe gydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Stan Davies a fu'n heddwas yn y pentref am flynyddoedd lawer.

**3236** **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Arwel Ll Jones, Heledd Jones ac Alwyn Jones.

**3237** **Datganiadau o fuddiant:** Datganwyd buddiant gan y Cyng Alwyn Roberts a Huw Roberts yng nghais cynllunio Maes Carafanau Bryn Gwyn.

**3238** **Cofnodion Cyfarfod Medi 2025:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3239** **Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Nodwyd na dderbyniwyd diweddariad gan Grŵp Cynefin ar y datblygiad arfaethedig yma.
ii. Deffib / Ciosg Cwm Cynllwyd: Adroddwyd fod y polyn wedi ei symud i leoliad addas, a bod popeth yn barod rŵan i osod y defib yn y cwm. Cytunwyd y bydd angen sesiwn hyfforddiant i'r trigolion ar ddefnydd y defib.
iii. Cerrig Beddi Mynwent yr Eglwys: Adroddwyd fod Alwyn Jones a'r Clerc wedi asesu'r gwaith o adleoli 5 carreg fedd, a'u bod o'r farn fod angen ystyried sut i greu mynedfa i'r rhan isaf o'r fynwent i hwyluso'r gwaith a mynediad i'r safle i'r dyfodol.
iv. Cofnodi Enwau Tirwedd Lleol: Rhoddwyd adroddiad a y gwaith o greu Llwybrau Treftadaeth i'r ardal, a nodwyd y bydd Pwyllgor datblygu'r Cyngor yn parhau gyda'r gwaith yma.
v. Llinellau Melyn ger mynedfa Maes y Pandy, Tŷ'n Ddôl a Chae Gwalia: Adroddwyd fod y broses ffurfiol o roi llinellau melyn ar yr ardaloedd yma wedi cychwyn, gyda Chyngor Gwynedd wedi gosod posteri ar y safleoedd i hysbysu'r cyhoedd o'r bwriad.
vi. Triathlon 2025: Derbyniwyd llythyr gan drefnwyr y Triathlon yn gwahodd adborth ar y digwyddiad. Cytunwyd fod yr ymgynghori lleol cyn y digwyddiad wedi gwella, ond fod angen parhau i leihau effaith cau'r A494 ar fusnesau lleol.
vii. Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru: Nodwyd fod y gynhadledd wedi ei gohirio am y tro.
viii. Gweithdy Arwyddion y Bala: Adroddwyd fod y Cyng Alwyn Jones wedi mynychu'r gweithdy ar ran y cyngor.

**3240 Derbyn adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Jones Evans, pryd y nodwyd:

- Fod y gwrych ger Maes Chwarae Maes y Pandy wedi ei dorri.
- Fod Cyngor Gwynedd yn bwriadu goleuo'r Gilfach Goffa.
- Fod cais wedi ei wneud i ail osod yr arwydd 40 ger y Plas Moduron.
- Fod bwriad i ail osod y bolards ger beudy'r Berth yng Nghynllwyd.
- Fod bwriad i archwilio lefelau'r cwlfert ger Ysgol O M Edwards.
- Fod yr Uchel Lys wedi caniatáu'r gwrthwynebiad i gynllun Erthygl 4 Cyngor Gwynedd, a fyddai'n golygu fod angen caniatâd cynllunio i droi tŷ yn ail gartref neu uned gwyliau, ond fod Cyngor Gwynedd am apelio yn erbyn y dyfarniad. Nodwyd na fydd hyn yn effeithio ar Bolisi Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri.

**3241 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu: Nodwyd y bydd y pwyllgor yn parhau i roi sylw i'r prosiect Enwau Lleoedd a'r Llwybrau Treftadaeth.
2. Pwyllgor Mynwentydd: Nodwyd fod angen cadarnhau'r hawl i symud cyrbiau yn y fynwent er mwyn gwella diogelwch i'r cyhoedd a hwyluso gwaith gofalwr y fynwent.
3. Bioamrywiaeth: Adroddwyd y bydd angen i'r pwyllgor greu Adroddiad Bioamrywiaeth erbyn diwedd y flwyddyn, a bod gweithdai wedi eu trefnu i hwyluso'r gwaith.
4. Nadolig: Adroddwyd fod trefniadau mewn llaw ar gyfer y Nadolig (Coeden Nadolig ac ymweliad Sion Corn).
5. Asedau: Nodwyd fod angen sylw i'r lloches bws ger Pont Llan, bod angen cadw meinciau'r pentref dros y gaeaf, a bod angen tocio tyfiant ar wal Mynwent yr Eglwys.
6. Cyllid: Nodwyd y bydd angen cyfarfod o'r is bwyllgor ym mis Tachwedd.

**3242 Materion Ariannol:** Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol i'r cyngor, ac fe gymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

- Cyflog a threth incwm y Clerc.
- Cytundeb glanhau y toiledau.
- Anfoneb CCF am nwyddau glanhau'r toiledau.
- Anfonebau Sion Jones am dorri gwair y Fynwent Newydd a'r Gilfach Goffa.

Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Medi yn £70.20.
Nodwyd derbyn grant y Parc Cenedlaethol o £5,000 (Prosiect Enwau Lleoedd).

**3243 Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod cyfarfod blynyddol y fenter am 2024/2025 yn cael ei gynnal yn yr Ysgoldy nos Fercher Hydref 15fed, a bod Holiadur Defnyddwyr yr Eagles yn cael ei baratoi.

**3244 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod cais i ariannu datblygiad Trafnidiaeth Gymunedol wedi ei gymeradwyo, a bod trefniadau'r cynllun ar y gweill.

3245 **Materion cynllunio:** Derbyniwyd cais cynllunio i insiwleiddio wal allanol gyda rendr a chladin pren yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn, a chais i osod paneli solar ym Maes Carafanau Bryn Gwyn. Cytunwyd i gefnogi'r ddau gais.

3246 **Gohebiaeth:**

i. Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am Dim Bioamrywiaeth newydd, am reolau Cydnabyddiaeth Ariannol 2026/2027, ac am Bwyllgor Ardal Meirionnydd ar Hydref 21ain.

3247 **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Nid oedd materion ychwanegol i'w trafod.

3248 **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 4/11/25 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.